

**Papur y Bwrdd i'w Nodi**



---

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 6 Rhagfyr 2019**

---

**Yn bresennol:**

Shan Morgan  
Ellen Donovan  
Ann Keane  
Jeff Farrar  
Gareth Lynn  
Andrew Goodall  
Tracey Burke  
Andrew Slade  
Des Clifford  
Peter Kennedy  
Natalie Pearson  
Gawain Evans  
David Richards  
Andrew Jeffreys  
Helen Lentle

**Yn mynychu:**

Katherine Thomas  
Helen Morris

Ysgrifenyddiaeth:  
Charmain Watts

**Ymddiheuriadau:**

Charlotte Thomas

## **1. Croeso**

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i'r cyfarfod.

## **2. Defnydd Llywodraeth Cymru o'r Model Cymdeithasol o Anabledd: Mandad dros newid a Diweddariad ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.**

2.1 Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Parhaol bwysigrwydd y gwaith hwn, yr angen i newid y diwylliant a gweithio'n wahanol yn y gweithle a'r tu hwnt. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn esiampl yn ein gwaith ein hunain ac arwain y ffordd i sefydliadau eraill. Nododd y Bwrdd fod cefnogaeth Weinidogol gref dros y gwaith hwn.

2.2 Datblygwyd y model cymdeithasol gan bobl anabl i ddisgrifio eu profiad bywyd ac ymgyrchu dros eu hawliau. Fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan Lywodraeth Cymru yn 2002 ond mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn dal yn isel ymysg staff ac mae ei ddefnydd mewn cyflogaeth, datblygu polisi a darparu gwasanaethau wedi bod yn gyfyngedig o ganlyniad i hynny.

2.3 Yn sgil gwaith o dan arweiniad y rhwydwaith Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd (DAAS) gyda chymorth y Tîm Cydraddoldeb yn y Gweithle, y Tîm Cydraddoldeb ac Anabledd Cymru, lansiodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddiffiniad newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru ar Ddiwrnod Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r model cymdeithasol yn gwahaniaethu rhwng 'nam' (sy'n effeithio ar yr unigolyn) ac 'anabledd' (a achosir gan y ffordd y gwneir pethau). Mae'n cydnabod bod pobl anabl yn anabl oherwydd rhwystrau, nid oherwydd eu nam neu'r hyn sy'n eu gwneud yn wahanol. Gall rhwystrau gynnwys agweddau, amgylcheddau, polisïau a gweithdrefnau sy'n atal cynhwysiant, cyfranogiad a chydaddoldeb pobl anabl ym mhob rhan o fywyd.

2.4 Diweddarodd Katherine Thomas, Pennaeth Tîm Cydraddoldeb yn y Gweithle Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Gweithredol ar fesurau cychwynnol i newid, yn systematig, y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd i wella canlyniadau ar gyfer pobl anabl mewn cyflogaeth, datblygu polisi a darparu gwasanaethau drwy:

- Newid ein defnydd o iaith
- Newid ymwybyddiaeth, dulliau gweithredu a chanlyniadau

2.5 Gwylodd y Bwrdd animeiddiad hefyd, a gafodd ei ddatblygu gan Dîm Gwasanaethau Creadigol Llywodraeth Cymru, sy'n dangos sut y byddai rhywun nad yw'n defnyddio cadair olwyn yn anabl mewn amgylchedd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn yn unig. Nod yr animeiddiad, sy'n rhan o ymgyrch gyfathrebu fewnol i godi ymwybyddiaeth o'r model

cymdeithasol, yw gwrthdroi disgwyliadau arferol ynghylch anabledd i bwysleisio effaith rhwystrau yn ein cymdeithas.

2.6 Nododd y Bwrdd y penderfyniadau canlynol a wnaed gan y Pwyllgor Gweithredol ar 5 Rhagfyr:

- Mabwysiadu safonau iaith gorfforaethol gorfodol (atodiad 2)
- Y camau i gefnogi ymwybyddiaeth a defnydd o'r model cymdeithasol (atodiad 3)

2.7 Trafododd y Bwrdd y camau nesaf, gan gynnwys:

- Ail gam yr ymgyrch gyfathrebu ym mis Ionawr 2020.
- Camau gweithredu yn y cynllun gweithredu, gan gynnwys cynnig mwy o hyfforddiant.
- Yr angen i gadw camau gweithredu o dan adolygiad gan ei bod hi'n ddyddiau cynnar yn y broses newid diwylliant hon.
- Edrych ar ganlyniadau'r Arolwg Pobl i weld beth maent yn ei ddweud wrthym am rwystrau sy'n wynebu staff anabl a dealltwriaeth sefydliadol o'r model cymdeithasol.

2.8 Cydnabu'r Bwrdd yr anawsterau wrth geisio newid diwylliant, ond cytunodd pawb fod nawr angen cymryd camau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r newid hwn ac yn arwain drwy esiampl.

2.9 Gofynnodd Andrew Jeffreys i'r Bwrdd nodi'r papur Diweddariad ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n dechrau cwmpasu cynnwys y Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n nodi ein ffordd o gynyddu amrywiaeth, dymchwel rhwystrau a chefnogi pawb i gyrraedd eu potensial yn ein gweithlu. Ar ôl ei ddatblygu ymhellach, cyflwynir y Cynllun Gweithredu gerbron cyfarfod o'r Bwrdd.

### **3.**

3.1 Diweddarodd Des Clifford y Bwrdd ar y datblygiadau gwleidyddol gan gynghori bod tri chanlyniad posibl yn sgil yr etholiad:

- Buddugoliaeth i'r Ceidwadwyr, ac os felly, byddai cytundeb Brexit parod yn cael ei basio drwy Senedd y DU ym mis Ionawr, ac yna bydd cyfnod pontio.
- Buddugoliaeth i'r Blaid Lafur, a fydd yn ailagor negodiadau â'r UE ac o bosibl refferendwm arall ar a yw'r DU yn ymadael â'r UE ai peidio.
- Senedd grog, a byddai'r anghytundeb yn parhau a pherygl ymadael heb gytundeb ym mis Ionawr yn cynyddu.

3.2 Dywedodd Des hefyd fod yr oedi yn y dyddiad ymadael heb gytundeb wedi rhoi amser i bwysu a mesur y posibiladau amrywiol at y dyfodol. Mae peirianwaith Llywodraeth Cymru hefyd wedi'i adolygu ac mae trafodaethau wedi'u cynnal ag Andrew Slade ynglŷn ag opsiynau i ad-drefnu'r strwythur i sicrhau trawsweithio gwell, a galluogi penderfyniadau cynt.

3.3 Eglurodd Des fod cyfarfod wedi bod â'r Archwilydd Cyffredinol wythnos diwethaf a bod adborth positif wedi dod gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r gwaith ynghylch Brexit.

#### **4. Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol**

4.1 Rhoddodd Helen Morris ddiweddariad i'r Bwrdd ar y gwaith o adnewyddu prosesau Rheoli Risg o fewn Llywodraeth Cymru a rhannodd y fersiwn bresennol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

4.2 Eglurodd Helen fod adolygiad Archwiliad Mewnol o arferion rheoli risg yn 2018/19 wedi canfod rhai bylchau yn Fframwaith Rheoli Risg Llywodraeth Cymru yr oedd angen eu llenwi. Rhoddwyd prosiect ar waith yn gynharach yn y flwyddyn i adolygu ac adnewyddu'r dull gweithredu, gan ei gysoni â'r fframwaith llywodraethu newydd. Yna, ym mis Gorffennaf 2019, diweddarwyd Llyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi am y tro cyntaf ers 2004 gan ddarparu deunydd newydd i'w ystyried wrth i Lywodraeth Cymru ddiweddarau ei arferion rheoli risg.

4.3 Rhoddodd Helen grynodedb o'r Polisi Rheoli Risg a Safonau Gofynnol Rheoli Risg, a nodweddion allweddol y Polisi Rheoli Risg a'r Datganiad Awydd am Risg.

4.4 Rhoddodd Helen drosolwg o'r strwythur adrodd ac eglurodd mai'r Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am benderfynu pa risgiau sy'n cael eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid. Mae'r cylch adolygu ac argymell cyntaf gan y Pwyllgorau wedi'i gwblhau yn

ddiweddar ac wedi arwain at drafodaeth well ynghylch risgiau corfforaethol trawsbynciol. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a chynghori arni.

4.5 Yn eu trafodaethau, nododd y ddau bwyllgor sawl risg â sgôr uchel sy'n cael eu rheoli ar lefel Grŵp. Mae'r risgiau lefel Grŵp hyn bellach wedi'u tynnu oddi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n canolbwyntio'n fwy penodol ar faterion strategol ar draws y sefydliad. Mae dwy risg newydd wedi'u nodi ac mae trydedd risg a oedd eisoes yn bodoli wedi'i hehangu.

4.6 Croesawodd y Bwrdd hyn ond gofynnodd i bob mecanwaith adrodd gyd-fynd â'i gilydd i osgoi dyblygu ymdrechion neu drafodaethau. Dylai hyn hefyd gynnwys risgiau cysylltiedig â phrosiectau mawr.

**CAM GWEITHREDU 1:** Cylch gorchwyl pob pwyllgor i gael ei ddiwygio i sicrhau proses adrodd symlach a chyson o ran rheoli risg yn Llywodraeth Cymru drwyddi draw.

4.7 Rhoddodd David Richards ddiweddariad ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol ac eglurodd fod pum Bil yn rhaglen Blwyddyn Pedwar yn goch. Yn sgil statws coch pob un o'r pum Bil, cynhaliodd y Prif Weinidog gyfarfod arolygu ddydd Llun 2 Rhagfyr ar y Biliau nad ydynt wedi'u cyflwyno eto.

4.8 Bydd y cyfarfodydd arolygu hyn yn cael eu cynnal bob mis i fonitro cynnydd, a chytunwyd hefyd y bydd Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cwrdd yn fwy rheolaidd.

## **5. Adroddiad Cyllid**

5.1 Cyfeiriodd Gawain Evans at y ddau gam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf sef:

- GE i lunio rhestr wirio o'r math o gwestiynau y dylai aelodau'r Bwrdd eu cadw mewn cof wrth adolygu'r adroddiad cyllid, er mwyn sicrhau gwerth am arian.
- GE ac AJ i ddarparu dalen o bapur A4 i'r Bwrdd sy'n amlinellu'r broses graffu ar gyllid a llymder y rheolaethau.

5.2 Eglurodd Gawain ei fod yn gweithio gydag Ellen Donovan a Gareth Lynn ar y strwythur adrodd ar gyllid yn y sefydliad. Bydd Gawain yn llunio papur a fydd yn egluro rôl yr Is-bwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd. Cyflwynir y papur yn y cyfarfod nesaf.

5.3 Cyfeiriodd Gawain Evans at yr adroddiad cyllid sy'n ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Hydref 2019 (mis 7). Mae'n cynnwys ffigurau alldro a ragwelir yn erbyn cyllideb 2019-20, sef Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 9 Gorffennaf.

5.4 Roedd yr adroddiad hefyd yn crynhoi'r prif faterion ariannol a nodwyd gan Benaethiaid Cyllid Llywodraeth Cymru ar y pryd.

5.5 Roedd y trafodaethau pellach yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Bwysau refeniw
- Pwysau cyfalaf
- Y sefyllfa o ran y cronfeydd wrth gefn
- Y gyllideb DEL bresennol
- Cronfeydd wrth gefn DEL sydd heb eu dyrannu

5.6 Yn ogystal, eglurodd Gawain fod trafodaethau yn mynd rhagddynt â'r Gweinidog Cyllid ynglŷn â rheoli unrhyw danwariant. Roedd trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt â Grwpiau i sicrhau tryloywder o ran tanwariant ac aildyrannu unrhyw gyllid.

## **6. Dull y sesiynau herio**

6.1 Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng y Prif Weinidog a chyfarwyddwyr anweithredol, lle y trafododd y Prif Weinidog ei flaenoriaethau gan gynnig y byddai'n ddefnyddiol cael y mewnbwn anweithredol ar y broses o gyflawni'r Blaenoriaethau.

6.2 Cynigiodd yr Ysgrifennydd Parhaol y dylid gwahodd y Cyfarwyddwyr anweithredol i gadeirio rhai o'i sesiynau her. Croesawodd y Cyfarwyddwyr anweithredol y dull hwn ac roeddent yn awyddus i sicrhau bod y sesiynau her yn ychwanegu gwerth.

6.3 Awgrymodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol eu bod yn tynnu sylw'r Cyfarwyddwyr Anweithredol at heriau allweddol yn eu maes a hefyd bod y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd Byrddau Polisi allweddol eraill i ddeall rhai o'r meysydd blaenoriaeth yn well. Croesawyd hyn gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol.

**CAM GWEITHREDU 2:** Cyfarwyddwyr Cyffredinol i roi gwybod i Gyfarwyddwyr Anweithredol am heriau allweddol yn eu maes a'u gwahodd i gyfarfodydd Byrddau Polisi.

**CAM GWEITHREDU 3:** Ychwanegu eitem agenda ar yr Adroddiad Blynyddol unwaith y mae wedi'i gyhoeddi yn gynnar yn 2020.

**CAM GWEITHREDU 4:** Trefnu'r Sesiynau Herio Anweithredol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn y calendr cyn gynted â phosibl.

**CAM GWEITHREDU 5:** Cynnwys eitem agenda sefydlog ar adborth o sesiynau herio ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

**Camau yn codi yn y cyfarfod o'r Bwrdd**

<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>Y SWYDDOG ARWEINIOL</b>	<b>Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF</b>
<b>CAM GWEITHREDU 1</b>	Cylch gorchwyl pob pwyllgor i gael ei ddiwygio i sicrhau proses adrodd symlach a chyson o ran rheoli risg yn Llywodraeth Cymru drwyddi draw.	Ar waith
<b>CAM GWEITHREDU 2</b>	Cyfarwyddwyr Cyffredinol i roi gwybod i Gyfarwyddwyr Anweithredol am heriau allweddol yn eu maes a'u gwahodd i gyfarfodydd Byrddau Polisi.	Ar waith
<b>CAM GWEITHREDU 3</b>	Ychwanegu eitem agenda ar yr Adroddiad Blynyddol unwaith y mae wedi'i gyhoeddi yn gynnar yn 2020.	Ar waith
<b>CAM GWEITHREDU 4</b>	Trefnu'r sesiynau Herio Anweithredol i sicrhau bod y cyfarfodydd yn y calendr cyn gynted â phosibl.	Wedi ei gau
<b>CAM GWEITHREDU 5</b>	Cynnwys eitem agenda sefydlog ar adborth o sesiynau herio ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.	Wedi ei gau

**Camau gweithredu yn cael eu dwyn ymlaen o 10 Hydref 2019**

<b>CAM GWEITHREDU</b>	<b>Y SWYDDOG ARWEINIOL</b>	<b>Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF</b>
<b>CAM GWEITHREDU 1:</b> GE i lunio rhestr wirio o'r math o gwestiynau y	Gawain Evans	Parhaus – Bydd yn adrodd yn ôl i'r

Papur y Bwrdd (19)044

dylai aelodau'r Bwrdd eu cadw mewn cof wrth adolygu'r adroddiad cyllid, er mwyn sicrhau gwerth am arian.		Bwrdd ym mis Ionawr.
<b>CAM GWEITHREDU 2:</b> GE ac AJ i ddarparu dalen o bapur A2 i'r Bwrdd sy'n amlinellu'r broses graffu ar gyllid a llymder y rheolaethau.	Gawain Evans ac Andrew Jeffreys	Parhaus – Bydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ym mis Ionawr.